# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 5 a 12 Mai 2005

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

8 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

9 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

12 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

13 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

17 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**Nick Bourne:** A yw’r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch rhoi benthyg gweithiau celf o orielau celf yn Lloegr i Gymru ac o Gymru i Loegr, ac os felly, a wnaiff roi’r manylion? (WAQ42236)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.***

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Er nad wyf wedi trafod y mater neilltuol hwn gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU, yr wyf yn ymwybodol o lawer o enghreifftiau o weithiau celf yn cael eu rhoi ar fenthyg o Loegr i orielau yng Nghymru ac i’r gwrthwyneb. Ymysg y benthyciadau a gafwyd o Loegr yn ddiweddar, a arddangoswyd yn Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Cymru, Caerdydd, mae ‘Madonna of the Pinks’ o’r Oriel Genedlaethol yn Llundain a ‘Queen of the Night’ o’r Amgueddfa Brydeinig. Ymysg enghreifftiau eraill mae benthyciadau i Gastell Bodelwyddan o’r Oriel Bortreadau Genedlaethol ac i Oriel Gelf Glynn Vivian yn Abertawe o Oriel Hayward yn Llundain. Ymysg yr enghreifftiau o fenthyciadau gan sefydliadau yng Nghymru yn ddiweddar i Loegr mae’r Amgueddfa Genedlaethol ac Oriel Glynn Vivian yn rhoi gweithiau ar fenthyg i Oriel Gelf Whitworth ym Manceinion. Dim ond nifer fach o enghreifftiau o’r llu o weithiau celf sy’n croesi’r ffin bob blwyddyn yw’r rhain.

**Nick Bourne:** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol? (WAQ42244)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.***

**Alun Pugh:** Sefydlwyd CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru ar 1 Ebrill 2004, fel is-adran newydd o Lywodraeth Cynulliad Cymru, i helpu i ddatblygu amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol yng Nghymru. Ar 3 Mawrth 2005, yng nghynhadledd llyfrgelloedd a gwybodaeth Cymru, cyhoeddais raglen strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu llyfrgelloedd o dan y teitl ‘@ Your Library’. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi buddsoddiad o £1 miliwn ym mlwyddyn gyntaf y rhaglen. Mae’n rhaglen strategol dros ddwy flynedd i ddatblygu llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru a hefyd i annog llyfrgelloedd o bob math i weithio mewn partneriaeth i’w gwneud yn bosibl cyrchu at adnoddau a rhannu adnoddau er budd pobl Cymru.

**Val Lloyd:** Pa gamau y mae’r Gweinidog yn eu cymryd i gefnogi digwyddiadau o fyd y campau, yn lleol neu’n genedlaethol, sydd wedi’u trefnu i roi sylw i’r ymgyrch i gael gwared ar hiliaeth o fyd y campau ac i annog gwahanol ddiwylliannau i gydweithio gan ddefnyddio chwaraeon fel arf? (WAQ42278)

**Val Lloyd:** Pa gamau y mae’r Gweinidog wedi’u cymryd i hybu cytgord hiliol trwy gyfrwng chwaraeon? (WAQ42279)

**Val Lloyd:** Pa gamau y mae’r Gweinidog wedi’u cymryd i sicrhau bod hiliaeth yn cael ei ddadwreiddio o fyd y campau? (WAQ42280)

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu gwybodaeth am raglenni sy’n trafod perygl hiliaeth wrth addysgu chwaraeon? (WAQ42281)

**Val Lloyd:** Pa gamau y mae’r Gweinidog wedi’u cymryd i annog sefydliadau chwaraeon i geisio mynd i’r afael â hiliaeth? (WAQ42282)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.***

**Alun Pugh:** Yr wyf am ateb WAQ42278, WAQ42279, WAQ42280, WAQ42281 a WAQ42282 gyda'i gilydd gan fod a wnelo pob un ohonynt â hiliaeth mewn chwaraeon.

Fy marn glir, fel a ddywedais yn ystod y ddadl ar gael gwared â hiliaeth o chwaraeon mewn cyfarfod llawn fis Rhagfyr diwethaf, yw na ellir goddef hiliaeth o unrhyw fath, mewn unrhyw gamp, ar unrhyw lefel, ac na fydd hynny'n digwydd.

Yr oeddwn wrth fy modd yn cefnogi lansio ail gynllun cydraddoldeb hiliol Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005-08) ar 21 Mawrth 2005. Yr oedd i chwaraeon ran amlwg yn y digwyddiad hwn. Tynnodd y lansiad sylw at ymrwymiad y Llywodraeth i ddatblygu'n awdurdod cyhoeddus sy'n esiampl i eraill yng Nghymru a'i nod yw datblygu newid cadarnhaol yn y tymor hir i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a hyrwyddo cysylltiadau hiliol da.

Mae ein 'Strategaeth ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol: Dringo'n Uwch', a gyhoeddwyd gennyf ar 31 Ionawr 2005, yn datgan yn glir bod ein nodau a'n targedau i gyd yr un mor gymwys i bobl anabl, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ar draws Cymru. I danlinellu ein cefnogaeth, ac fel a addewais yn y ddadl ar hiliaeth y llynedd, yr wyf erbyn hyn wedi rhoi cyfarwyddiadau clir i Gyngor Chwaraeon Cymru fod cymorth ariannol i gael ei ddarparu, fel rhan o'r pecyn datblygu pêl-droed, i gynorthwyo'r fenter 'Show Racism the Red Card', sy'n canolbwyntio'n arbennig ar waith ysgolion ac ar addysgu plant.

Fodd bynnag, caiff polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar chwaraeon ei weithredu gan nifer o gyrff ac mae gan Gyngor Chwaraeon Cymru rôl flaenllaw yn hynny o beth. Yr wyf am iddo arwain ymgyrch wrth-hiliaeth benodol, uchel ei phroffil a mynd i'r afael â'r her o argyhoeddi cyrff llywodraethu chwaraeon i feddwl am gydraddoldeb hiliol fel elfen annatod o'u cynllunio strategol, eu gwaith datblygu a'u cynlluniau hyfforddi.

Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran ymladd hiliaeth, ond mae rhagor o waith i'w wneud er mwyn dymchwel rhwystrau, meithrin hyder cymunedau a mynd ati i annog a chefnogi datblygu a gweithredu lleol mewn modd rhagweithiol. Mae chwaraeon yn gyfrwng positif iawn er hyrwyddo cytgord hiliol, ond mae cyfrifoldeb ar bawb ohonom, mewn partneriaeth ag eraill, i wneud safiad a chael gwared â hiliaeth o chwaraeon unwaith ac am byth.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol Theatr y Torch? (WAQ42295)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.***

**Alun Pugh:** Mae gwella ac ailwampio Theatr y Torch yn brosiect strategol i Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae Theatr y Torch yn ceisio cyllid ar gyfer pecyn ailddatblygu i wella'r cyfleusterau. Amcangyfrifir y bydd y gost yn £5.2 miliwn.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar raglen ddatblygu Theatr y Torch? (WAQ42297)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.***

**Alun Pugh:** Derbyniodd y Torch £3.2 miliwn o arian datblygu cyfalaf, £2.7 miliwn oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru a'r gweddill oddi wrth Fwrdd Croeso Cymru a Chyngor Sir Penfro.

Mae'r cynllun prosiect cyfredol wedi'i seilio ar £2 miliwn o arian Amcan Un Ewropeaidd pellach. Yr wyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth am hyn.

**Irene James:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch sicrhau bod gwasanaethau teledu digidol ar gael ledled Cymru? (WAQ42645)

**Alun Pugh:** Yr wyf mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth y DU ac Ofcom am faterion darlledu, yn cynnwys sicrhau bod gwasanaethau teledu digidol ar gael yng Nghymru. Yn fwyaf diweddar, yn ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i gam 3 ymgynghoriad Ofcom am Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, tanlinellais bwysigrwydd sicrhau gwasanaethau digidol cynhwysfawr ar draws Cymru ar ôl newid i ddarlledu digidol.

**Lisa Francis:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynglŷn â dyfodol yr Eisteddfod Genedlaethol? (WAQ42666)

**Alun Pugh:** Yr wyf wedi cael llawer o drafodaethau dros y misoedd diwethaf am ddyfodol yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r rhain wedi canolbwyntio ar gyfraniad yr Eisteddfod tuag at ddatblygu Cymru ddwyieithog, sefyllfa ariannol yr Eisteddfod a'r angen i sicrhau ei bod yn apelio at drwch y bobl.

**Lisa Francis:** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cael ynglŷn â darparu arian ychwanegol i'r Eisteddfod Genedlaethol? (WAQ42667)

**Alun Pugh:** Yr wyf wedi cael nifer o drafodaethau am sefyllfa ariannol yr Eisteddfod Genedlaethol dros y misoedd diwethaf.

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn ddigwyddiad diwylliannol pwysig ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn glir am y rôl bwysig y mae'n ei chwarae yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg. Adlewyrchir hyn yn y pecyn ariannol ychwanegol sylweddol o £200,000 a roddwyd gennym i'r Eisteddfod yr hydref diwethaf yn ychwanegol at ei chyllideb graidd o £360,000. Yr ydym hefyd eleni wedi cynyddu'r gyllideb graidd honno i £400,000. Dylai hyn i gyd gyfrannu'n sylweddol tuag at sefydlogi sefyllfa ariannol yr Eisteddfod Genedlaethol a dylai adeiladu seiliau cadarnach ar gyfer y dyfodol.

**Lisa Francis:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i annog busnesau i fuddsoddi mewn sefydliadau celfyddydol yng Nghymru? (WAQ42668)

**Alun Pugh:** Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithio'n agos gyda chyrff partner megis Arts and Business Cymru a Bwrdd Croeso Cymru i wella delwedd Cymru ac annog mewnfuddsoddi. Cydnabyddir hyn yng 'Ngwobrau Arts & Business Cymru' yn flynyddol. Mae'r gwobrau yn annog, yn cydnabod ac yn dathlu partneriaethau rhwng busnes a'r celfyddydau sy'n esiampl i eraill.

**Lisa Francis:** Pa ymdrechion a wnaed i farchnata'r Eisteddfod Genedlaethol yn well yng Nghymru, yn y DU gyfan ac mewn gwledydd tramor? (WAQ42670)

**Alun Pugh:** Mae gan yr Eisteddfod Genedlaethol strategaeth farchnata, ac y mae'n ei theilwrio ar gyfer pob Eisteddfod unigol. Targedir cynulleidfaoedd ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol.

Mae nodau ac amcanion y strategaeth farchnata yn cynnwys:

- codi proffil yr Eisteddfod Genedlaethol ymysg gwyliau celfyddydol eraill yng Nghymru, Ewrop a thu hwnt
- integreiddio syniadau a phrofiad marchnata yn holl weithgareddau'r Eisteddfod
- gostwng proffil oedran yr Eisteddfod, gan ganolbwyntio'n benodol ar bobl ifanc, teuluoedd ifanc, dysgwyr a'r rhai nad ydynt yn medru'r Gymraeg, heb golli cefnogaeth y farchnad draddodiadol
- cynyddu marchnad graidd yr Eisteddfod, sydd ar hyn o bryd oddeutu 75,000 o bobl, o'i chymharu â ffigur blynyddol ymweld â'r Eisteddfod o 150,000 ar gyfartaledd.

**Lisa Francis:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynglŷn â moderneiddio'r Eisteddfod? (WAQ42671)

**Alun Pugh:** Yr wyf wedi cael llawer o drafodaethau dros y misoedd diwethaf am yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r angen i foderneiddio yn thema yr wyf wedi ei phwysleisio ar bob cyfle. Fe'm calonogwyd bod rheolwyr yr Eisteddfod hefyd yn cydnabod bod angen i'r Eisteddfod foderneiddio a chroesawu newid.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad a yw ef, neu unrhyw un o'i swyddogion, wedi cael, neu'n bwriadu cael, trafodaethau gyda Shanghai Automotives am gyflenwadau gan gwmnïau o Gymru i Shanghai Automotives ac, os ydyw, a wnaiff ef roi manylion y trafodaethau hyn? (WAQ42621)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Mae tasglu modurol Cymru wedi cael ei ailgynnull er mwyn ymateb i argyfwng MG Rover. Mae'n monitro'r berthynas rhwng Shanghai Automotives a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru. Mae'r WDA yn ymwneud yn fanwl â'r broses a bydd yn parhau i wneud hynny, gyda'r nod o helpu cwmnïau yng Nghymru i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd masnachol, ac mae llawer o drafodaethau yn cael eu cynnal ar sail fasnachol gyfrinachol. Mae'n trafod cyfleoedd posibl gyda Shanghai Automotives.

**Nick Bourne:** A yw Awdurdod Datblygu Cymru wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Shanghai Automotives ac, os ydyw, a wnaiff ef roi manylion y trafodaethau hyn ac os nad ydyw, a yw hi'n fwriad gan Awdurdod Datblygu Cymru gael trafodaethau o'r fath? (WAQ42622)

**Andrew Davies:** Mae tasglu modurol Cymru wedi cael ei ailgynnull er mwyn ymateb i argyfwng MG Rover. Mae'n monitro'r berthynas rhwng Shanghai Automotives a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru. Mae'r WDA yn ymwneud yn fanwl â'r broses a bydd yn parhau i wneud hynny, gyda'r nod o helpu cwmnïau yng Nghymru i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd masnachol, ac mae llawer o drafodaethau yn cael eu cynnal ar sail fasnachol gyfrinachol. Mae'n trafod cyfleoedd posibl gyda Shanghai Automotives.

**Nick Bourne:** A fu unrhyw drafodaethau rhwng y Gweinidog a'r Adran Masnach a Diwydiant am Shanghai Automotives ac am gyflenwadau gan gwmnïau o Gymru a busnesau o Gymru ac, os bu, a wnaiff ef roi manylion trafodaethau o'r fath ac os na fu, a yw hi'n fwriad ganddo gael trafodaethau o'r fath? (WAQ42623)

**Andrew Davies:** Mae tasglu modurol Cymru wedi cael ei ailgynnull er mwyn ymateb i argyfwng MG Rover. Mae'n monitro'r berthynas rhwng Shanghai Automotives a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru. Mae'r WDA yn ymwneud yn fanwl â'r broses a bydd yn parhau i wneud hynny, gyda'r nod o helpu cwmnïau yng Nghymru i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd masnachol, ac mae llawer o drafodaethau yn cael eu cynnal ar sail fasnachol gyfrinachol. Mae'n trafod cyfleoedd posibl gyda Shanghai Automotives.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y bobl ddi-waith ym Mlaenau Ffestiniog ar gyfer bob blwyddyn ers 1999? (WAQ42624)

**Andrew Davies:** Rhoddir y wybodaeth sydd ar gael yn y tabl. Nifer y rhai sy'n hawlio lwfans ceisio gwaith yw'r unig fesur dibynadwy o ddiweithdra ar y lefel hon o fanylder daearyddol. Mae'r tabl yn rhoi'r lefelau hawlio lwfans ceisio gwaith ym mis Mawrth bob blwyddyn mewn dwy ward 1991 yng nghyffiniau Blaenau Ffestiniog: Bowydd a Rhiw a Chonglywal a Maenofferen. Dyma'r unig unedau daearyddol lleol y mae cyfrif cyson o nifer y rhai oedd yn hawlio'r lwfans ar gael amdanynt yn ôl hyd at

1999. Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, yr oedd 86 o bobl yn hawlio lwfans ceisio gwaith ym mis Mawrth 2005, 100 yn union (neu 54 y cant) yn llai nag ym mis Mawrth 1999.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gostyngiad yn nifer y bobl sy'n teithio o Faes Awyr Cymru Caerdydd? (WAQ42630)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau â'i hamrywiad i weld maes awyr rhyngwladol Caerdydd yn cael ei ddatblygu, ac mae'r rhagolygon yn dangos y bydd nifer y teithwyr yn cynyddu'n sylweddol dros y tymor hwy. Deallaf fod y gostyngiad mewn traffig yn chwarter cyntaf 2005 i'w briodoli'n gyfan gwbl i golli awyrennau MyTravel a'r ffaith fod capasiti bmibaby wedi gostwng rhywfaint.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar absenoliaeth yn y gweithle yng Nghymru? (WAQ42650)

**Nick Bourne:** Beth sy'n cael ei wneud yng Nghymru ynglŷn ag absenoliaeth yn y gweithle? (WAQ42652)

**Andrew Davies:** Fwyfwy, mae cyflogwyr yn cydnabod bod gwell cydbwysedd bywyd a gwaith i'w gweithwyr yn gallu cynyddu morâl a theyrngarwch, lleihau straen, absenoliaeth a throsiant staff a'u helpu i ddod yn gyflogwyr y mae gweithwyr yn dewis gweithio iddynt.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â Chwarae Teg, Awdurdod Datblygu Cymru, Dysgu ac Addysgu Cymru, y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu a Chyngres Undebau Llafur Cymru i yrru menter cydbwysedd bywyd a gwaith ymlaen yng Nghymru. Mae'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi gofyn i Chwarae Teg yn ddiweddar i arwain menter newydd, 'Getting the Balance Right', dros y tair blynedd nesaf.

Yn ogystal, mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ailddatblygu ei safon gorfforaethol 'Iechyd ar Waith: Cyrraedd y Nod', arf datblygu sy'n annog, yn cefnogi ac yn gwobrwyo arferion da o ran hybu iechyd yn y gweithle. Mae'r rhaglen yn cael ei chymeradwyo gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Cydffederasiwn Busnes a Diwydiant Cymru a TUC Cymru ac mae'n cyfrannu at ein hagenda economaidd.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi ffigurau ar absenoliaeth yn y gweithle yng Nghymru o gymharu â rhanbarthau eraill yn y DU? (WAQ42651)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ffigurau, os oes rhai, yn cymharu absenoliaeth yn y gweithle ar gyfer y rhanbarthau gwahanol yng Nghymru? (WAQ42653)

**Andrew Davies:** Mae arolwg llafurlu lleol Cymru 2003 yn rhoi'r data canlynol am absenoliaeth yn y gweithle.

**Absenoldeb salwch gweithwyr amser llawn, yn ôl rhanbarthau swyddfeydd y llywodraeth**

| | Canran y gweithwyr a fu'n absennol yn sâl am ddiwrnod o leiaf yn ystod wythnos y cyfweliad | Canran yr holl ddiwrnodau gweithio a gollir oherwydd salwch |
|---|---|---|
| Y DU | 3.0 | 1.6 |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 2.7 | 1.6 |
| Gogledd-orllewin Lloegr (yn cyn. Glannau Mersi) | 2.8 | 1.7 |
| Swydd Efrog a Humberside | 3.0 | 1.6 |

| | | |
|---|---|---|
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 3.3 | 1.5 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 3.3 | 1.7 |
| Dwyrain Lloegr | 3.1 | 1.5 |
| Llundain | 2.8 | 1.3 |
| De-ddwyrain Lloegr | 3.4 | 1.7 |
| De-orllewin Lloegr | 3.0 | 1.5 |
| Cymru | 2.8 | 1.6 |
| Yr Alban | 3.3 | 1.8 |
| Gogledd Iwerddon | 2.0 | 1.4 |
| Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 2.8 | n/a |
| Dwyrain Cymru | 2.7 | n/a |

**Nick Bourne:** Beth yw'r dyddiad amcangyfrifedig diweddaraf ar gyfer cwblhau gwaith ar ffordd yr A487 yn Aberarth? (WAQ42661)

**Andrew Davies:** Ar hyn o bryd yr ydym yn disgwyl y bydd y cam hwn o'r gwaith yn cael ei gwblhau ym mis Hydref eleni. Mae gofyn caffael darnau bach o dir ar gyfer ail gam y gwaith, a fydd yn cynnwys troetffordd lefel uwch a phompren newydd dros yr afon. Nid oes sicrwydd o hyd a fydd yn bosibl cael y tir hwn drwy gytundeb â'r tirfeddianwyr neu a fydd yn rhaid dibynnu ar weithdrefnau statudol. Os gellir cael y tir yn fuan drwy gytundeb, mae'n debyg y byddai modd cwblhau'r elfennau o'r prosiect sy'n weddill y flwyddyn nesaf. Os bydd rhaid inni ddibynnu ar orchymyn prynu gorfodol i gaffael y darnau hyn o dir, mae'n debygol y ceir oedi hir, a allai olygu o bosibl y bydd y prosiect drwyddo draw yn para rhyw ddwy flynedd arall.

**Lisa Francis:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i annog y sector preifat i fuddsoddi mewn gweithgynhyrchu yng Nghymru? (WAQ42669)

**Andrew Davies:** Mae'r sector gweithgynhyrchu o bwys arwyddocaol i economi Cymru ac mae'n cael cymorth sector cyhoeddus o dan amrywiaeth eang o fentrau. Yr oedd 72 y cant o'r cynigion o gymorth rhanbarthol dewisol a 62 y cant o'r cynigion o Grant Buddsoddi gan y Cynulliad a wnaed yn 2003-04 i brosiectau gweithgynhyrchu.

Ym mis Ionawr 2004, sefydlais grŵp gorchwyl a gorffen gweithgynhyrchu o dan arweiniad busnes, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o blith cyflogwyr a gweithwyr yn y sector, i ystyried y sialensiau sy'n wynebu gweithgynhyrchu yng Nghymru ac i archwilio a fyddai modd targedu'r cymorth o du Llywodraeth y Cynulliad yn well. Cyflwynodd y grŵp adroddiad ym mis Mai 2004 ac yr ydym wedi gweithredu ar ei arweiniad mewn nifer o feysydd allweddol.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ganolfan Rheoli Ffordd o Fyw Cynnyrch (PLM)? (WAQ42685)

**Andrew Davies:** Mae'r ganolfan Rheoli Cylchred Oes Cynnyrch (PLM) yn rhan annatod o'r technium modurol sy'n cael ei ddatblygu yn Nafen ar hyn o bryd. Bydd cwmnïau o Gymru sy'n gweithredu yn y sectorau awyrofod a modurol yn gallu manteisio ar rai o'r cynhyrchion meddalwedd mwyaf blaengar yn y byd i'w galluogi i arloesi a rheoli cynnyrch drwy gydol y gylchred oes.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar brosiect y technium modurol? (WAQ42686)

**Andrew Davies:** Mae'r technium modurol yn Nafen yn cael ei godi ar hyn o bryd.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol y diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru? (WAQ42687)

**Andrew Davies:** Mae 'Cymru'n Ennill' yn nodi'r blaenoriaethau y byddir yn rhoi sylw iddynt wrth drawsnewid economi Cymru ac mae'n cynnwys mesurau a fwriadwyd i helpu'r sector gweithgynhyrchu i gynnal a datblygu ei fin cystadleuol.

Fis Ionawr y llynedd, sefydlais y grŵp gorchwyl a gorffen gweithgynhyrchu i archwilio pa un a fyddai modd i gymorth y Llywodraeth gael ei dargedu'n well. Cyflwynwyd adroddiad y grŵp ym mis Mai 2004 ac ym mis Rhagfyr, pan gyfarfûm eto â chynrychiolwyr y grŵp, yr oeddwn yn gallu adrodd cynnydd da yn erbyn y rhan fwyaf o'i argymhellion.

**Lisa Francis:** Pryd y caiff strwythur terfynol Bwrdd Croeso Cymru ei bennu? (WAQ42688)

**Lisa Francis:** Pryd y caiff strwythur terfynol Awdurdod Datblygu Cymru ei bennu? (WAQ42689)

**Andrew Davies:** Mae'r Prif Weinidog wedi cyhoeddi cynlluniau i ddod â swyddogaethau Bwrdd Croeso Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru i mewn i Lywodraeth y Cynulliad. Mae gwaith ar strwythur yr Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i'r dyfodol yn parhau.

**Lisa Francis:** A fydd enw brand Awdurdod Datblygu Cymru yn parhau ar ôl y broses uno? (WAQ42690)

**Andrew Davies:** Gwneir penderfyniadau am frandio maes o law yng ngoleuni'r astudiaeth annibynnol ar Gyfathrebu, Marchnata a Brandio sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

**Lisa Francis:**: A fydd enw brand Bwrdd Croeso Cymru yn parhau ar ôl y broses uno? (WAQ42691)

**Andrew Davies:** Gwneir penderfyniadau am frandio maes o law yng ngoleuni'r astudiaeth annibynnol ar Gyfathrebu, Marchnata a Brandio sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y penderfyniad i dalu £50 miliwn i Drenau Arriva Cymru dros 14 mlynedd tuag at gostau prydlesu 7 trên unedau diesel 2-gerbyd pan amcangyfrifir mai costau prynu 7 uned gerbyd newydd yw £15 miliwn? (WAQ42749)

**Andrew Davies:** Rhyddheais Ddatganiad Cabinet ysgrifenedig ar 3 Mawrth a oedd yn egluro bod y buddsoddiad refeniw o ryw £50 miliwn dros 14 mlynedd yn rhoi gwell gwerth am arian nag opsiwn i brynu cerbydau newydd, pe bai cerbydau addas wedi bod ar gael, er nad felly yr oedd hi. Mae'r £50 miliwn yn cynnwys costau cyfalaf a chostau trwm o ran prydlesu gwaith cynnal a chadw ar y cerbydau, ynghyd â'r holl gostau gweithredol yn cynnwys staff a thanwydd ac ati.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi pob gohebiaeth rhwng ei hadran a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful mewn perthynas â'r bwriad i gau Ysgol Bryn Hyfryd yn Ynysowen? (WAQ42625)

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful mewn perthynas â'r bwriad i gau Ysgol Bryn Hyfryd yn Ynysowen? (WAQ42627)

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn mewn perthynas â'r bwriad i gau Ysgol Bryn Hyfryd yn Ynysowen, ac a fydd yn cyhoeddi'r sylwadau hyn? (WAQ42628)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mewn ymateb i WAQ42627, nid wyf wedi cael unrhyw gyfarfodydd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful am y bwriad i gau ysgol Bryn Hyfryd. Mewn ymateb i WAQ42625 a WAQ42628, mae nifer o lythyrau wedi cael eu hanfon ataf am Ysgol Bryn Hyfryd. Byddaf yn ystyried eich ceisiadau i'w cyhoeddi o dan y ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth ac anfonir ymateb atoch maes o law.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar ymateb awdurdodau lleol yng Nghymru i'r Adolygiad Polisi 'Supply of School Places' a gyhoeddwyd yn ddiweddar? (WAQ42626)

**Jane Davidson:** Ni wn am adolygiad o'r enw hwnnw a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Ym mis Gorffennaf 2001, cyhoeddodd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad o dan y teitl 'The Supply of School Places'. Nid oedd gofyniad penodol ar i'r awdurdodau addysg lleol gyflwyno ymatebion i'r adroddiad hwn, a drafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Gorffennaf 2001. Yn dilyn yr argymhellion yn yr adroddiad, cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig ar gynigion trefniadaeth ysgolion at ddibenion ymgynghori, yna fe'u cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2002 (23/02). Mae angen i'r AALlau roi sylw i'r canllawiau hyn wrth ddatblygu cynigion ar gyfer eu hysgolion.

**Lisa Francis:** A fydd arian ychwanegol ar gael i weithredu argymhellion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ynghylch cludiant i'r ysgol yng Nghymru? (WAQ42635)

**Lisa Francis:** A fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithredu argymhelliad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes sef caniatáu dau ddisgybl yn unig i bob sedd ar gludiant i'r ysgol, ac os felly, pryd y caiff y polisi hwn ei weithredu'n llawn? (WAQ42636)

**Lisa Francis:** Sut y bydd y Gweinidog yn sicrhau bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithredu argymhellion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar gyfer cludiant i'r ysgol yng Nghymru? (WAQ42644)

**Jane Davidson:** Lansiwyd adroddiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar gludiant i'r ysgol ar 3 Mai. Byddaf yn darparu ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r adroddiad ym mis Mehefin. Bydd yr ymateb yn cynnwys goblygiadau ariannol yr argymhellion y bwriadwn eu derbyn ynghyd â rhaglen weithredu fras.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Michael German:** Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud o ran cynnal dadansoddiad cost a budd mewn perthynas â defnyddio beiciau modur oddi-ar-y-ffordd, fel a drafodwyd yng Nghynhadledd Beiciau Modur Oddi-ar-y-ffordd Cymru a gynhaliwyd ar 6 Mai 2004? (WAQ42631)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Ffocws cychwynnol y grŵp llywio a ffurfiwyd o ganlyniad i'r gynhadledd a noddwyd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru ym mis Mai 2004 oedd codi ymwybyddiaeth o'r materion yn gysylltiedig â beicio modur oddi ar y ffordd a chanfod ffyrdd o reoli'r gweithgaredd hwn. Ymchwiliodd y grŵp hefyd i'r posibilrwydd o ddarparu cyfleusterau priodol i alluogi beicio oddi ar y ffordd i gael ei gynnal fel gweithgaredd adloniant dilys drwy ddynodi nifer o safleoedd peilot i arddangos yr arferion rheoli gorau.

Yr oedd y grŵp o'r farn fod ymchwil cychwynnol i'r mater yn bwysig ac y dylid cynnal ymchwil i feysydd penodol yn gynnar yn y prosiect. Yr oedd y rhain yn cynnwys y tueddiadau cymdeithasol ac economaidd wrth wraidd y mater, darpariaeth yswiriant a dadansoddiad o gost a budd darparu

cyfleusterau. Mae llawer o'r dystiolaeth ar gyfer dadansoddiad cost a budd yn dibynnu ar ganlyniadau'r ymchwil cynharach hwn a'r safleoedd peilot sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd. Bydd y grŵp llywio yn gwneud cais yn fuan i Lywodraeth Cynulliad Cymru am gymorth ariannol er mwyn comisiynu'r ymchwil hwn.

**Michael German:** Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud o ran gwahodd pob Awdurdod Lleol i nodi safleoedd addas ar gyfer gweithgareddau beiciau modur oddi-ar-y-ffordd, fel a drafodwyd yng Nghynhadledd Beiciau Modur Oddi-ar-y-ffordd Cymru a gynhaliwyd ar 6 Mai 2004? (WAQ42632)

**Carwyn Jones:** Mae'r grŵp llywio, a ffurfiwyd o ganlyniad i'r gynhadledd a gynhaliwyd ar 6 Mai 2004, wrthi'n gweithio gyda nifer o awdurdodau lleol ar hyn o bryd i ddynodi safleoedd peilot addas ar gyfer gweithgareddau beiciau modur oddi ar y ffordd.

Bwriad y grŵp yw gweithio'n gadarnhaol gyda phob awdurdod unedol yng Nghymru drwy helpu eu swyddogion yn y broses o ddarparu safleoedd ac addysgu defnyddwyr. Fodd bynnag, i wneud hyn yn effeithiol, mae'r grŵp o'r farn fod angen ymchwil cychwynnol i ganfod gofynion defnyddwyr posibl yn fwy eglur ac i sefydlu'r meini prawf ar gyfer dethol safleoedd addas. Bydd y grŵp llywio yn gwneud cais yn fuan i Lywodraeth Cynulliad Cymru am gymorth ariannol er mwyn comisiynu'r ymchwil angenrheidiol hwn i fod yn gefn i waith y grŵp.

**Michael German:** Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud o ran cychwyn ymgynghoriad i nodi safleoedd addas ar gyfer gweithgareddau beiciau modur oddi-ar-y-ffordd cyfreithlon, fel a drafodwyd yng Nghynhadledd Beiciau Modur Oddi-ar-y-ffordd Cymru a gynhaliwyd ar 6 Mai 2004? (WAQ42633)

**Carwyn Jones:** Mae holl aelodau'r grŵp llywio a ffurfiwyd o ganlyniad i'r gynhadledd a gynhaliwyd ar 6ed Mai 2004, drwy eu cyrff eu hunain, yn hyrwyddo gwaith y grŵp ac yn ceisio barn awdurdodau lleol ledled Cymru. Caiff y wybodaeth hon ei bwydo'n ôl i waith y grŵp llywio a'r gweithgorau sy'n ymchwilio i agweddau penodol o'r mater.

Mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cynhaliwyd arolwg o holl awdurdodau lleol Cymru i sefydlu pa safleoedd sy'n bodoli ar hyn o bryd ac i ddynodi polisïau o eiddo'r awdurdodau lleol sy'n cefnogi gweithgareddau rasio moduron.

Mae'r grŵp llywio hefyd yn bwriadu cyfrannu at nodyn cyngor technegol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hamdden a thwristiaeth. Bwriedir i'r nodyn gynnwys cymorth a chanllawiau ar ddarparu cyfleoedd rasio moduron.

**Lisa Francis:** I ba arglawdd llifogydd lleol yn Nhrefriw yn Nyffryn Conwy y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn gwneud gwelliannau interim, a ddisgwylir i'r gwaith hwn ddechrau cyn mis Awst eleni a phryd y bwriedir i'r gwaith gael ei gwblhau? (WAQ42643)

**Carwyn Jones:** Yn ôl a ddealla fy swyddogion mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn bwriadu codi'r argloddiau presennol ar hyd afon Crafnant gerllaw'r tai hynny yn Nhrefriw a gafodd lifogydd yn ddiweddar. Mae'r gwaith i fod i ddechrau yn gynnar yn yr haf a chael ei gwblhau cyn tymor llifogydd 2005-06. Yr asiantaeth sy'n gyfrifol am hyrwyddo a rheoli'r gwaith a hi sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu gwybodaeth fwy manwl.

**Nick Bourne:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i amddiffyn Cymru rhag clefydau egsotig mewn anifeiliaid? (WAQ42662)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i leihau'r risg o glefydau egsotig yn dod i mewn i Gymru. Cynhelir nifer o weithgareddau er mwyn ymgyrraedd at y nod hwn. Er enghraifft, mae'r mesurau rheoli ar gasglu anifeiliaid ynghyd a'u symud, yn cynnwys y mesur aros yn yr unfan am chwe diwrnod, yn golygu bod clefydau yn lledaenu llai. Mae'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol a'r awdurdodau lleol yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i orfodi'r mesurau rheoli ac i roi cyngor da ar bioddiogelwch.

Drwy'r rheoliadau cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid, rhoddir cyfyngiadau ar fewnforion o wledydd tramor lle mae clefydau hysbysadwy wedi'u cadarnhau, gan leihau ymhellach y risg o glefydau yn dod i mewn i'r wlad.

Tollau Tramor a Chartref EM sydd â'r cyfrifoldeb rheng flaen am leihau'r risg i glefydau egsotig ddod i mewn i'r wlad drwy fewnforion anghyfreithlon. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi Tollau Tramor a Chartref EM drwy ddarparu cyhoeddusrwydd dwyieithog sydd wedi'i anelu at deithwyr sy'n dod i mewn i Gymru.

**Nick Bourne:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i annog pobl ifanc i weithio yn y diwydiant ffermio? (WAQ42663)

**Carwyn Jones:** Yr wyf eisoes wedi sicrhau bod mwy o gymorth ar gael mewn nifer o ffyrdd, yn cynnwys dyfarnu pwyntiau ychwanegol i helpu ffermwyr ifanc i gyrraedd y trothwy er mwyn cael eu derbyn i Tir Gofal, a chyfraddau grant uwch o dan Cyswllt Ffermio. Yr wyf hefyd yn ystyried nifer o opsiynau pellach i helpu pobl ifanc, yn cynnwys tenantiaethau busnes a ffermio cyfran ac mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r clybiau ffermwyr ifanc, Awdurdod Datblygu Cymru, Ffermwyr Cymru i'r Dyfodol a Lantra i ddatblygu'r syniadau hyn ymhellach.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog geisio sicrhau y bydd ffermwyr yng Nghymru yn gallu parhau i ddefnyddio tomennydd ffermydd ar gyfer gwastraff pydradwy, fel a wneir yn yr Alban? (WAQ42664)

**Carwyn Jones:** Nid yw'r mater hwn wedi'i ddatganoli. Yn fy ateb i WAQ42665, cyfeiriais at reoliadau newydd sy'n cael eu paratoi gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a fydd yn effeithio ar y modd y rheolir gwastraff amaethyddol.

Unwaith y daw'r rheoliadau hyn i rym, ni fydd ffermwyr yng Nghymru yn gallu defnyddio tomennydd ffermydd ar gyfer gwastraff pydradwy oni bai eu bod yn cydymffurfio â holl ofynion trwyddedu a gofynion gweithredu y gyfarwyddeb tirlenwi. Bydd yn rhaid i ffermwyr sydd am barhau i ddefnyddio eu tomennydd ffermydd wneud cais i Asiantaeth yr Amgylchedd am drwydded tirlenwi.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar waredu gwastraff amaethyddol? (WAQ42665)

**Carwyn Jones:** Nid yw'r mater hwn wedi'i ddatganoli; fodd bynnag, mae fy swyddogion wedi ymwneud yn fanwl â'r datblygiadau.

Cynhaliodd DEFRA ymgynghoriad yng Nghymru a Lloegr ar reoliadau drafft sy'n effeithio ar reoli gwastraff amaethyddol rhwng 9 Rhagfyr a 18 Mawrth. Un o brif ddibenion y rheoliadau drafft newydd yw diddymu'r eithriad yn adran 75(7)(c) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ar hyn o bryd a chymhwyso'r mesurau rheoli cenedlaethol sydd wedi eu sefydlu eisoes i wastraff amaethyddol er mwyn cydymffurfio â'r gyfarwyddeb fframwaith gwastraff a'r gyfarwyddeb tirlenwi. Ni fydd ffermwyr felly yn gallu defnyddio tomennydd ffermydd na llosgi gwastraff ar ffermydd mwyach oni bai eu bod wedi sicrhau bod y trwyddedau angenrheidiol ganddynt i wneud hynny.

Yr wyf wedi sefydlu is-grŵp gwastraff amaethyddol o dan fforwm gwastraff Cymru i godi ymwybyddiaeth ffermwyr o faterion gwastraff ac i roi cyngor ymarferol ar ddidoli, storio a gwaredu gwastraff amaethyddol. Bydd yr is-grŵp yn ystyried materion gwastraff amaethyddol yng Nghymru ac yn hysbysu Llywodraeth y Cynulliad ac Asiantaeth yr Amgylchedd am faterion yn ymwneud â gweithredu mesurau rheoli gwastraff sy'n effeithio ar y gymuned ffermio.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

**Nick Bourne:** Pa ganran o deuluoedd yng Nghymru sydd ym mhob un o fandiau'r dreth gyngor yn y flwyddyn gyfredol a beth oedd y ganran ym mhob un o'r blynyddoedd blaenorol er 1999? (WAQ42620)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Rhoddir y wybodaeth a geisiwch yn y tabl isod:

**Canran yr aelwydydd yng Nghymru ym mhob un o fandiau'r dreth gyngor er 1999**

| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1999-2000 | 19.9 | 25.5 | 20.3 | 15.2 | 11.9 | 4.3 | 2.6 | 0.2 | . |
| 2000-01 | 19.9 | 25.4 | 20.3 | 15.2 | 12.0 | 4.4 | 2.7 | 0.2 | . |
| 2001-02 | 19.8 | 25.3 | 20.2 | 15.2 | 12.1 | 4.5 | 2.7 | 0.2 | . |
| 2002-03 | 19.6 | 25.1 | 20.2 | 15.2 | 12.2 | 4.6 | 2.8 | 0.2 | . |
| 2003-04 | 19.4 | 25.0 | 20.2 | 15.2 | 12.3 | 4.7 | 2.9 | 0.2 | . |
| 2004-05 | 19.3 | 24.9 | 20.2 | 15.3 | 12.4 | 4.8 | 2.9 | 0.2 | . |
| 2005-06 | 15.6 | 21.5 | 21.9 | 15.6 | 12.7 | 7.7 | 3.6 | 0.9 | 0.4 |

Ffynhonnell: datganiadau anheddau treth gyngor yr awdurdodau lleol

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag awdurdodau lleol ynglŷn ag ardrethi busnes? (WAQ42654)

**Sue Essex:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r awdurdodau lleol am ardrethi busnes gan nad oes yr un awdurdod wedi codi'r mater hwn yn uniongyrchol gyda mi.

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r FSB ynglŷn ag ardrethi busnes? (WAQ42655)

**Sue Essex:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Ffederasiwn y Busnesau Bach, ond mae fy swyddogion yn mynd i amryw o gyfarfodydd rheolaidd am ardrethi busnes lle mae'r ffederasiwn yn cael ei gynrychioli.

**Nick Bourne:** Pa ymdrechion y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu gwneud i hysbysu'r cyhoedd bod budd-dal y dreth gyngor ar gael? (WAQ42659)

**Sue Essex:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dal i weithio gyda'r awdurdodau lleol a'r Adran Gwaith a Phensiynau i'w helpu i godi ymwybyddiaeth o'r budd-dal treth gyngor ac i annog pobl i gysylltu â'u hawdurdod lleol am gyngor a help i wneud hawliad.

Ym mis Tachwedd 2004, cynhwysodd y Gwasanaeth Pensiynau wybodaeth am sut mae hawlio budd-dal treth gyngor gyda'r hysbysiadau am y taliad tanwydd gaeaf a anfonwyd i 12 miliwn o bensiynwyr (8 miliwn o aelwydydd pensiynwyr). Mae'r ymgyrch ymwybyddiaeth yn parhau eleni gyda'r thema 'Lleihau'ch Treth Cyngor' tra bo'r testun yn annog pobl i ymgeisio ar unwaith. Ymddangosodd cyfres o hysbysebion yn y wasg genedlaethol ym mis Ionawr ac yn y wasg ranbarthol ym mis Ionawr a mis

Mawrth. Mae posteri a thaflenni hysbysebu wedi cael eu darparu i'r awdurdodau lleol i gyd, yn ogystal â chael eu dosbarthu i 30,000 o gyrff cynghori a chael eu harddangos mewn meddygfeydd. Mae'r daflen 'Help â'ch Treth Cyngor' (GL17) ar gael mewn fformat ffeithlen mewn wyth iaith ethnig.

Yr wyf wedi sefydlu gweithgor budd-dal treth gyngor i edrych ar ffyrdd o wella'r niferoedd sy'n manteisio ar y budd-dal hwn ar draws Cymru ac i nodi unrhyw awgrymiadau am newidiadau deddfwriaethol y gellid eu rhoi gerbron yr Adran Gwaith a Phensiynau.

**Nick Bourne:** Sawl cartref yng Nghymru sy'n cael budd-dal y dreth gyngor? (WAQ42660)

**Sue Essex:** Mae tua 271,000 o ddeiliaid tai yn hawlio budd-dal treth gyngor yng Nghymru. Dyma'r ffigurau amcangyfrifedig diweddaraf sydd ar gael (Tachwedd 04) oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau, wedi'u seilio ar ystadegau 2002-03.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd tuag at ddarparu ysbyty newydd yng Nghaerffili? (WAQ42629)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Mae'r achos busnes amlinellol am ysbyty bwrdeistref sirol Caerffili wedi dod i law. Mae'r swyddogion mewn trafodaeth â staff yr ymddiriedolaeth a'r bwrdd iechyd lleol ar hyn o bryd am sut mae symud yr achos busnes yn ei flaen ac ymdrin â'r materion a nodwyd yn ystod y broses graffu. Cyn gynted ag y bydd materion o'r fath wedi cael eu datrys, bydd yr achos yn mynd i'r bwrdd buddsoddi cyfalaf am gymeradwyaeth i gael ei ystyried. Er mai'r gobaith yw y gellir ystyried rhoi cymeradwyaeth cyn gynted â phosibl, mae'n amlwg yn fwy pwysig fod pob mater yn ymwneud â'r datblygiad yn cael sylw priodol cyn y rhoddir caniatâd i symud ymlaen i'r cam nesaf.

**Lynne Neagle:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella'r ddarpariaeth o ofal seibiant ar gyfer plant ag anableddau a'u rhieni? (WAQ42634)

**Brian Gibbons:** Mae gwasanaethau seibiant yn flaenoriaeth o dan y rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf a'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i blant, pobl ifanc a gwasanaethau mamolaeth sydd i gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Mae dros £108 miliwn wedi cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol fel grant Rhoi Plant yn Gyntaf er 1999, ac mae £40 miliwn pellach ar gael yn 2005-06.

**Lisa Francis:** Ymhellach i WAQ42509, ym mha gylchgrawn am ddim y rhoddwyd yr hysbysebion? (WAQ42637)

**Brian Gibbons:** Mae hysbyseb ar ran yr ymgyrch i atal heintiau a drosglwyddir yn rhywiol yn cael ei roi ar hyn o bryd yn rhifyn y gwanwyn o'r cylchgrawn *Red Handed*. Mae hysbysebion blaenorol wedi ymddangos yn *The Big Issue Cymru*.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae merched ifanc yn cael eu targedu yn yr ymgyrch bresennol i atal heintiau a drosglwyddir yn rhywiol? (WAQ42639)

**Brian Gibbons:** Mae'r ymgyrch yn ymddangos mewn toiledau mewn prifysgolion a cholegau, ac mewn tafarnau a chlybiau nos. Cynhyrchir cyfres o bum poster: dau yn targedu menywod ifanc, dau yn targedu dynion ifanc ac un cyffredinol. Mae defnyddio mannau mewn toiledau yn ffordd effeithiol o dargedu yn ôl rhyw.

**Lisa Francis:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau nad yw pobl hyn sy’n byw ar eu pen eu hunain yn dioddef o effeithiau unigedd? (WAQ42640)

**Lisa Francis:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau nad yw pobl hyn sy’n byw ar eu pen eu hunain yn dioddef o iselder? (WAQ42641)

**Lisa Francis:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod pobl hyn sy’n byw ar eu pen eu hunain yn teimlo’n rhan o gymdeithas? (WAQ42642)

**Brian Gibbons:** Yr ydym yn mynd i’r afael â phroblemau unigedd ac allgáu cymdeithasol drwy ein strategaeth ar gyfer pobl hyn o dan y nod o werthfawrogi pobl hyn ac fel rhan o agenda ‘ddinasyddiaeth’ y strategaeth. Mae arian strategaeth yn cael ei ddarparu i ddatblygu a chynyddu cynlluniau gwirfoddoli, ac i greu cysylltiadau rhwng cenedlaethau er mwyn denu pobl hyn i ymwneud a chyfranogi mwy yn eu cymunedau ac yn y gymdeithas yn gyffredinol. Yn ogystal, mae’r cynllun gweithredu sydd ar fin cael ei gyhoeddi ar hybu iechyd pobl hyn yn cynnwys canllawiau ar hyrwyddo iechyd a lles emosiynol, ac mae fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i bobl hyn yn cael ei baratoi sy’n cynnwys safon ar iechyd meddwl.

**Rhodri Glyn Thomas:** Sut y bu i’r Gweinidog a Llywodraeth Cynulliad Cymru ymateb i Ddogfen Ymgynghori Arfarniad NICE ar gyffuriau ar gyfer trin Clefyd Alzheimer? (WAQ42646)

**Brian Gibbons:** Fel rhanddeiliad yng nghanllawiau’r Sefydliad Cenedlaethol ar Ragoriaeth Glinigol, gwahoddir y Cynulliad i gyflwyno sylwadau am ddogfennau ymgynghori pob arfarniad. Bryd hynny, fodd bynnag, yr ydym yn cyfyngu unrhyw sylwadau sydd gennym i fanylion technegol y dystiolaeth y seiliwyd yr argymhellion dros dro arni. Ni fyddai’n briodol i’r Cynulliad geisio dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu canllawiau NICE, yn enwedig tra bo’r holl ymatebion i’r ymgynghoriad yn dal i gael eu hystyried gan NICE. Yn y cyd-destun hwnnw, cadarnhaodd fy swyddogion eu bod yn fodlon â’r ddogfen fel y cafodd eu drafftio.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar y diffiniad o berson anabl mewn perthynas â chymhwyster i gael gofal cartref am ddim? (WAQ42647)

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog egluro pa namau meddyliol a gaiff eu cynnwys o fewn diffiniad y Llywodraeth o berson anabl mewn perthynas â chymhwyster i gael gofal cartref am ddim? (WAQ42648)

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar yr ardaloedd peilot a nodwyd mewn perthynas â gweithredu gofal cartref am ddim i bobl anabl? (WAQ42649)

**Brian Gibbons:** Nid wyf wedi gwneud penderfyniad terfynol ar y diffiniad o berson anabl yng nghyd-destun yr ymrwymiad yn y maniffesto, ac ni fyddaf yn gwneud hynny nes y byddaf wedi ymgynghori â rhanddeiliaid a’r cyhoedd. Yr wyf wedi nodi ar ba sail yr wyf yn bwriadu ymgynghori mewn datganiad Cabinet a gyhoeddwyd ar 21 Mawrth. Mae’r datganiad yn nodi hefyd y byddaf yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan awdurdodau lleol mewn treialu’r cynllun fel rhan o’r broses ymgynghori.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y bobl yng Nghymru sy’n dioddef o anhwylderau bwyta, ar gyfer pob blwyddyn ers 1997? (WAQ42672)

**Brian Gibbons:** Nid yw’r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog.

**Lisa Francis:** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod Byrddau Iechyd Lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru yn defnyddio canllawiau NICE (Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol) wrth drin anhwylderau bwyta? (WAQ42673)

**Brian Gibbons:** Mae gweithredu canllawiau NICE, yn cynnwys y canllaw clinigol ar drin anhwylderau bwyta, yn cael ei fonitro ar lefel leol a lefel genedlaethol. Ar lefel leol, mae'r cyfrifoldeb am sicrhau bod systemau wedi'u sefydlu i sicrhau bod canllawiau'r arfarniadau technoleg yn cael eu gweithredu o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt neu fod eu sefydliadau yn gweithio tuag at eu gweithredu yn achos canllawiau clinigol yn gorffwys gyda chyfarwyddwyr meddygol, cyfarwyddwyr nyrsio ac arweinwyr llywodraethu clinigol ar fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau GIG.

Ar lefel genedlaethol, caiff gweithredu gan y BILlau a'r ymddiriedolaethau ei fonitro drwy'r fframwaith gwella perfformiad, yn arbennig y dull cytbwys o fesur perfformiad, a thrwy eu mecanweithiau adrodd llywodraethu clinigol. Bydd cydymffurfio â chanllawiau NICE yn un o ofynion ein fframwaith newydd ar gyfer safonau gofal iechyd yng Nghymru hefyd, yr ydym wedi ymgynghori yn ei gylch yn ddiweddar ac a gaiff ei lansio'n ffurfiol yn fforwm ansawdd Cymru ym mis Mai. Bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn rhoi sylw i faterion cydymffurfio fel rhan o'i hadolygiadau o sefydliadau GIG yn erbyn y safonau cenedlaethol hyn. Mae'n debygol y bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cynnal adolygiadau thematig yn canolbwyntio ar weithredu canllawiau NICE, mewn partneriaeth a/neu ochr yn ochr â'r Comisiwn Gofal Iechyd.

**Lisa Francis:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau arbenigol yn cael eu datblygu ar gyfer y bobl hynny sy'n dioddef o anhwylderau bwyta yng Nghymru? (WAQ42674)

**Brian Gibbons:** Cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol yw darparu pob gwasanaeth, yn cynnwys gwasanaethau i'r rhai sy'n dioddef o anhwylderau bwyta. Mae Comisiwn Iechyd Cymru yn comisiynu'r gwasanaethau mwyaf arbenigol ar gyfer anhwylderau bwyta. Hyd yma, cyn belled ag y mae mynediad at wasanaethau arbenigol i gleifion mewnol yn bod, mae Comisiwn Iechyd Cymru wrthi'n datblygu cynigion i ddatblygu gwasanaeth 14 gwely i gleifion mewnol ar safle Ysbyty Glanrhyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

**Lisa Francis:** Pa wasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru ar gyfer y bobl hynny sy'n dioddef o anhwylderau bwyta? (WAQ42675)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr adolygiad o'r ymagwedd tuag at anhwylderau bwyta a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chomisiwn Iechyd Cymru? (WAQ42680)

**Brian Gibbons:** Y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am ddarparu pob gwasanaeth iechyd sylfaenol ac eilaidd, yn cynnwys cymorth i'r bobl hynny sy'n dioddef o anhwylder bwyta. Mae'r rhain yn cynnwys therapi teulu, therapïau ymddygiadol gwybyddol, mewnbwn seicoleg ac ati. Gellir derbyn pobl eraill i wardiau seiciatrig cyffredin neu wardiau pediatrig ar draws Cymru. Ar hyn o bryd mae cleifion sydd â math neilltuol o ddifrifol o anhwylder bwyta, nad oes modd gofalu amdanynt yn lleol o fewn gwasanaethau gofal sylfaenol neu eilaidd, yn cael eu cyfeirio weithiau i gael triniaeth y tu allan i'r ardal gan unedau arbenigol yn Lloegr. Comisiynir gwasanaethau arbenigol gan Gomisiwn Iechyd Cymru.

Mae canllaw NICE yn gwneud argymhellion ar ganfod, trin a rheoli anorecsia nerfosa, bwlimia nerfosa ac anhwylderau bwyta annodweddiadol (yn cynnwys anhwylder gorfwyta mewn hyrddiau) o fewn gofal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol. Mae'r canllaw yn gymwys i oedolion, y glasoed a phlant wyth oed neu'n hyn.

**Lisa Francis:** Pryd y disgwylir i Ganolfan Anhwylderau Bwyta Cymru agor? (WAQ42676)

**Brian Gibbons:** Deellir bod cwmni preifat yn bwriadu agor uned anhwylderau bwyta yn Rhymni, a disgwylir iddi dderbyn cleifion o fis Ionawr 2006.

**Lisa Francis:** Pa fesurau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i annog mwy o gwmnïau preifat i sefydlu canolfannau anhwylderau bwyta ledled Cymru? (WAQ42677)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am sicrhau bod y budd llawn o fuddsoddi mewn gwasanaethau iechyd o fudd i bobl Cymru drwyddynt draw, nid i gwmnïau preifat. Am y rheswm hwn ni fydd yn ymrwymo i unrhyw fentrau ar y cyd â chwmnïau sector preifat i ddatblygu capasiti iechyd ychwanegol yng Nghymru nac yn tanysgrifennu datblygiadau newydd drwy warantu lefel o fusnes neu incwm iddynt ar sail reolaidd neu gontractyddol. Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ysbytai preifat yw y gall y GIG ddefnyddio capasiti sy'n bodoli yn y sector preifat, yn y tymor byr, lle bo hyn yn help i ddatrys diffygion capasiti yn lleol, ei fod er lles pennaf y cleifion ac yn rhoi gwerth am arian.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi faint y mae anhwylderau bwyta yn ei gostio i'r GIG yng Nghymru, ar gyfer pob blwyddyn ers 1997? (WAQ42678)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog.

**Lisa Francis:** Pa fesurau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i annog Byrddau Iechyd Lleol i wella'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt i'r bobl hynny sydd ag anhwylderau bwyta? (WAQ42679)

**Lisa Francis:** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol i addysgu cymunedau lleol mewn perthynas ag anhwylderau bwyta? (WAQ42683)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru i ddatblygu llwybr gofal anhwylderau bwyta o ofal sylfaenol hyd at wasanaethau gofal trydyddol.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi cost anfon cleifion o Gymru i glinigau ar gyfer anhwylderau bwyta yn Lloegr, ar gyfer pob blwyddyn ers 1997? (WAQ42682)

**Brian Gibbons:** Yr oedd y gwariant y tu allan i'r ardal ar gleifion ag anhwylderau bwyta fel a ganlyn:
Ebrill - Mawrth 2003-04 = £3.760 miliwn
Ebrill – Rhagfyr 2004-05 = £2.415 miliwn

Cyfrifoldeb yr awdurdodau iechyd oedd comisiynu gwasanaethau cyn 2003. Nid oes ffigurau'n cael eu dal yn ganolog am y blynyddoedd cyn 2003.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar pryd y bydd un driniaeth ffrwythlondeb ar gael am ddim? (WAQ42750)

**Brian Gibbons:** Cyhoeddwyd meini prawf drafft mynediad at driniaeth IVF at ddibenion ymgynghori, a daeth yr ymgynghoriad i ben ar 14 Mawrth 2005. Byddaf yn dod i benderfyniad yn fuan gan gymryd yr ymatebion i'r ymgynghoriad i ystyriaeth.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Lisa Francis:** Ymhellach i WAQ42510, a oes unrhyw gynlluniau i gasglu’r wybodaeth hon yn ganolog? (WAQ42638)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Bydd system casglu ac adrodd data newydd Cymru gyfan, a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2005, yn casglu’r math hwn o wybodaeth am unigolion sy’n ceisio triniaeth neu’n cael eu cyfeirio am driniaeth. Mae manylion llawn y prosiect wedi’u cynnwys yn fy adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ym mis Medi.